# Cam-drin ar Sail Anrhydedd a Phriodas Dan Orfod

## (Sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Trais ar Sail Anrhydedd)

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Crynodeb o'r polisi:** | ***Cam-drin ar Sail Anrhydedd a Phriodas Dan Orfod*** | | |
| **Rhif y polisi:** | ***004/2021*** | | |
| **Rheoli fersiynau:** | ***Mae'n disodli fersiwn gyntaf y Polisi Cam-drin ar Sail Anrhydedd a Phriodas Dan Orfod dyddiedig 16/10/2015.***<br><br>**Fersiwn** \| **Dyddiad** \| **Awdur** \| **Rhesymwaith**<br>***F2*** \| ***18/01/2021*** \| [redacted] \| ***Diweddaru i fformat polisi newydd.***<br>***F1*** \| ***16/10/2015*** \| [redacted] \| ***Fersiwn 1*** | | |
| **Dyddiad gweithredu:** | ***08/02/2021*** | | |
| **Dyddiad adolygu:** | ***08/02/2022*** | | |
| **Perchennog/ cyswllt:** (wedi'i gymeradwyo gan – y Bwrdd) | ***Ditectif Arolygydd y Ganolfan Fregusrwydd*** | | |
| **Ymgynghori a chymeradwyo** | ***Y Dirprwy Brif Arolygydd*** [redacted] | | |
| **Cyfieithiad Cymraeg** | ***Oes*** | ***X*** | ***Nac Oes*** |

# 1. Datganiad Polisi

Mae Cam-drin ar Sail Anrhydedd a Phriodas Dan Orfod yn mynd yn groes i Hawliau Dynol, sy'n annerbyniol. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymrwymo i roi gwasanaeth cyson a phroffesiynol i ddioddefwyr, ac ymchwilio i bob trosedd a gyflawnir er 'anrhydedd'.

*'digwyddiad neu drosedd sy'n ymwneud â thrais, bygythiadau o drais, codi ofn, gorfodaeth neu gamdriniaeth (gan gynnwys camdriniaeth seicolegol, gorfforol, rywiol, ariannol neu emosiynol), sydd wedi neu a allai fod wedi eu cyflawni i amddiffyn neu warchod anrhydedd yr unigolyn, y teulu a/neu'r gymuned - oherwydd honnir bod cod ymddygiad y teulu a/neu'r gymuned wedi'i dorri.'* - Arferion Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona.

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn sicrhau bod pob aelod staff yn deall natur gymhleth a sensitif y troseddau a'r digwyddiadau hyn, ac nad oes unrhyw 'anrhydedd' sy'n medru cyfiawnhau mynd yn groes i hawliau dynol eraill. Bydd rhai swyddogion yn derbyn hyfforddiant uwch er mwyn dod yn arbenigwyr, ond bydd pob swyddog yn derbyn hyfforddiant ac yn ymwybodol o'r rheol 'un siawns'. Efallai mai dim ond un cyfle fydd ganddynt i siarad â dioddefydd posibl ac achub bywyd. Mae gan bob dioddefydd yr hawl sylfaenol i gael ei gredu.

Mae'r polisi hwn yn eistedd yn gadarn o fewn ein blaenoriaeth strategol i 'Amddiffyn Pobl Fregus'. Yr ydym yn cydnabod y gall cam-drin ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod fod yn fath o gam-drin domestig neu drais rhywiol hefyd, felly rydym yn ystyried ein hymateb ochr yn ochr â'r polisi Cam-drin Domestig a pholisïau cysylltiedig eraill.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymrwymo i geisio ymagwedd system gyfan tuag at fynd i'r afael â materion cam-drin ar sail anrhydedd drwy bartneriaethau ag asiantaethau statudol ac anstatudol.

Mae gan bawb ohonom gydgyfrifoldeb i sicrhau bod digwyddiadau cam-drin ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod yn cael eu hadnabod a'u gweithredu'n gywir. Gan hynny, rhaid i unrhyw weithiwr sy'n cael gafael ar asedau'r heddlu a'u defnyddio roi ystyriaeth ddyledus i gynnwys y polisi hwn. Mae'n berthnasol ar gyfer holl gategorïau gweithwyr Heddlu Dyfed-Powys, pa un ai a ydynt yn staff llawn amser, rhan amser, parhaol, cyfnod penodol, dros dro (gan gynnwys staff asiantaeth a chontractwyr) neu'n staff sydd ar secondiad. Gall asiantaethau partner ei ddefnyddio i ddeall ein

bwriad strategol wrth ymdrin â digwyddiadau cam-drin ar sail anrhydedd neu briodas dan orfod.

# 2. Cwmpas y Polisi

Ein nod strategol yw dileu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag adrodd am y digwyddiadau hyn. Mae cynyddu ffydd a hyder y cymunedau yr effeithir arnynt, gan gynnwys y rhai a allai ofni erledigaeth pe baent mewn cysylltiad ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith, yn flaenoriaeth. Gall ymgysylltu â chymunedau a chodi ymwybyddiaeth leihau tanadrodd ac amlygu troseddau cudd. Bydd arweinwyr yn sicrhau bod ymateb effeithiol yn cael ei ddarparu bob tro yr ydym yn derbyn adroddiad drwy adnabod y risg yn gywir ac ymateb iddo, a blaenoriaethu diogelu dioddefwyr ac eraill rhag niwed.

Mae diogelwch y dioddefydd, ac unrhyw un arall y nodir ei fod mewn perygl o niwed, yn hollbwysig. Bydd ei ddiogelwch wrth galon ein hymateb cychwynnol a'n hymchwiliad. Mae'n bwysig mai dyma'r flaenoriaeth gyntaf, â ffocws ar atal ac ymyrryd. Dylid ystyried canlyniadau cyfiawnder troseddol yn erbyn troseddwyr ym mhob achos lle mai sail, gan gofnodi rhesymau clir ar gyfer pob penderfyniad. Rhaid cwblhau asesiad risg gyda'r dioddefydd, gan ystyried aelodau teulu ehangach neu blant a allai fod mewn perygl hefyd. Mae cynllunio ar gyfer diogelwch yn hanfodol.

# 3. Pwerau a Gofynion Polisi/Cyfreithiol

Cyfeirir ato'n aml fel 'Trais ar Sail Anrhydedd' ond mae Heddlu Dyfed-Powys yn cydnabod nad yw pob math o gam-drin yn dreisgar (yn unol â diffiniad Cam-drin Domestig). Gan hynny, byddwn yn cyfeirio ato fel Cam-drin ar Sail Anrhydedd. Does dim trosedd benodol ar sail anrhydedd. Term ymbarél yw 'trosedd ar sail anrhydedd' i gwmpasu cymhelliad troseddwr ar gyfer cyflawni troseddau amrywiol sy'n cael eu cwmpasu gan ddeddfwriaethau presennol.

Mae'n drosedd gorfodi rhywun i briodi. Diffinnir Priodas Dan Orfod fel – *priodas a gynhelir heb ganiatâd un neu'r ddau unigolyn a lle mae gorfodaeth yn ffactor, gan gynnwys:*

- *mynd â rhywun dramor i'w gorfodi nhw i briodi (hyd yn oed os nad yw'r briodas yn cael ei chynnal)*

- *priodi pobl nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i gydsynio i briodas (hyd yn oed os nad yw'n cael ei orfodi)*

Ynghyd â'r tramgwydd troseddol hwn, mae rhwymedi sifil o gael Gorchymyn Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod yn bodoli. Gellir gwneud cais amdano drwy'r llysoedd teulu. Mae hyn yn rhoi dewis i ddioddefwyr o ran sut y maent yn dymuno cael eu cynorthwyo

- *os ydynt mewn priodas dan orfod NEU*
- *os ydyn nhw, neu rywun arall, yn cael eu bygwth â phriodas dan orfod.*

Mae torri unrhyw un o'r gwaharddiadau, cyfyngiadau neu ofynion a nodir yn y Gorchymyn yn dramgwydd troseddol y byddwn yn ymchwilio iddo ac yn ceisio ei erlyn.

Mae Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn anghyfreithlon yn y DU o dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn ei ddiffinio fel '*unrhyw weithdrefn sy'n golygu tynnu rhan neu'r cyfan o organau cenhedlu allanol menywod, neu anaf arall i organau cenhedlu menywod am resymau anfeddygol.'* Nid oes unrhyw fanteision iechyd hysbys, a gall fod canlyniadau iechyd difrifol i'r ferch neu'r fenyw y cynhelir y weithdrefn arni. Mae'n cael ei gynnal ar blant dan oed yn bennaf, felly mae'n fath o gam-drin plant ac yn mynd yn groes i'w hawliau, ond mae Diogelu Oedolion hefyd yn chwarae rhan allweddol o ran sicrhau diogelwch unrhyw oedolion mewn perygl. Mae gan Heddlu Dyfed-Powys bolisi hunangynhwysol ar gyfer Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod.

Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â'r dogfennau canlynol sy'n darparu canllawiau penodol mewn perthynas ag ymchwilio i Gam-drin ar Sail Anrhydedd/Trais a Phriodas Dan Orfod:

- Gweithdrefnau Diogelu Cymru
- Strategaeth Trais ar Sail Anrhydedd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (2008)
- Arferion Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona – nodir y strategaeth blismona genedlaethol ar gyfer Cam-drin ar Sail Anrhydedd, Priodas dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod
- Deddf Priodas Dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2007 – Gorchmynion Amddiffyn Rhag Priodas Dan Orfod
- a120 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (torri Gorchymyn Amddiffyn Rhag Priodas Dan Orfod)
- Canllawiau statudol amlasiantaeth y Swyddfa Gartref ar gyfer ymdrin â phriodas dan orfod
- Arferion Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona o ran Priodas Dan Orfod a Thrais Er Anrhydedd
- Canllawiau Protocol Amlasiantaeth Llywodraeth EM ar gyfer Priodas Dan Orfod, Mehefin 2014

- Protocol Plant Coll Cymru Gyfan 2011
- Polisi Unigolion Coll Heddlu Dyfed-Powys
- Polisi Cofnodi a Phennu Troseddau Heddlu Dyfed-Powys
- Gofyn a Gweithredu – ymholiad targedig Llywodraeth Cymru/Cymorth i Fenywod
- Cydweithio Er Mwyn Diogelu Plant
- Cynllun Blynyddol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae Rhan 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r **nodweddion gwarchodedig** sy'n gymwys i'w diogelu dan y Ddeddf, sef: Oed; Anabledd; Ailbennu Rhywedd; Priodas a Phartneriaeth Sifil; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Hil; Crefydd neu Gred; Rhywedd; Cyfeiriadedd Rhywiol.

Mae **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** yn gosod gofyniad cyfreithiol rhagweithiol ar gyrff cyhoeddus i roi ystyriaeth, wrth arfer eu swyddogaethau, i'r angen i:

- ddileu camwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon dan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu;
- hybu perthynas dda rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn berthnasol i'r holl nodweddion gwarchodedig ac eithrio Priodas a Phartneriaeth Sifil, ac yn yr achos hwnnw dim ond y ddyletswydd i ystyried yr angen i ddileu camwahaniaethu sy'n berthnasol.

Er mwyn cynnal **asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb** rhaid mynd ati'n systematig i asesu effeithiau tebygol neu wirioneddol polisi ar bobl o safbwynt yr holl nodweddion gwarchodedig a nodir uchod.

Dylid cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob polisi sy'n **berthnasol** i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae templed ar gyfer asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gael yma. Mae fersiwn Saesneg o'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd ar gael yma. Ceir canllawiau ar gyfer cwblhau'r templed ar dudalen fewnrwyd yr adran amrywiaeth.

| Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | Y Ganolfan Fregusrwydd |
| **Llofnod:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 27/01/21 |

**DEDDF HAWLIAU DYNOL**

**TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIAETH**

Cafodd y polisi hwn ei ddrafftio yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol a'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol, ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf honno a'r egwyddorion sy'n sail iddi.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | Y Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Llofnod:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 2 February 2021 |

# 4. Dewisiadau a Chynlluniau Wrth Gefn

Bydd y polisi hwn ar gael i'r cyhoedd, a'n holl aelodau staff. Dylid ei ystyried adeg yr adroddiad cyntaf er mwyn ymateb yn gyflym ac effeithiol i amddiffyn y rhai sydd mewn perygl o niwed.

Dylai staff ymgyfarwyddo â'r polisi, a'r canllawiau gweithredol ar ein safle mewnrwyd, lle mae cyngor tactegol ar gyfer swyddogion ymchwilio ar gael.

Mae barn proffesiynol hefyd yn bwysig. Gall dioddefwyr y troseddau hyn wneud yn fach o'r cam-drin, neu beidio ag adnabod y perygl o niwed i'w hunain ac eraill. Gall unrhyw swyddog neu asiantaeth bartner wneud cyfeiriad MARAC os yw'n teimlo mai hyn yw'r ffordd iawn o weithredu yn seiliedig ar ei farn broffesiynol ei hun. Yna, gellir cynnal trafodaeth amlasiantaeth er mwyn amddiffyn y rhai sydd mewn perygl. Gellir cael cyngor gan y Ganolfan Fregusrwydd.

Os oes gan swyddogion unrhyw ymholiadau neu awgrymiadau ar gyfer gwella, neu os ydynt yn gweld rhwystrau rhag arfer da, gallant gyfeirio at eu rheolwyr neu ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Ganolfan Fregusrwydd.

## COD MOESEG

Mae'r egwyddorion Cod Moeseg canlynol yn berthnasol:

- Atebolrwydd – Byddwn yn atebol am benderfyniadau, gweithredoedd ac esgeulustod mewn perthynas â gweithredu'r polisi hwn.
- Tegwch – Bydd y polisi hwn yn cael ei weithredu'n deg a heb ragfarn.
- Gonestrwydd – Byddwn yn gweithredu cynnwys y polisi hwn â gonestrwydd er mwyn cynnal ffydd y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.
- Unplygrwydd – Crëwyd y polisi hwn er mwyn sicrhau ein bod ni'n anelu i wneud ein gorau glas dros ddioddefwyr.
- Gwrthrychedd – Bydd gweithredu'r polisi hwn yn seiliedig ar dystiolaeth a barn broffesiynol orau.
- Didwylledd – Byddwn yn agored a thryloyw yn ein gweithredoedd a'n penderfyniadau.
- Parch – Byddwn yn trin pob aelod o'r gymuned â pharch ac yn cynnal yr urddas.
- Anhunanoldeb – Byddwn yn gweithredu'n anhunanol er budd y cyhoedd.

**TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIO**

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Cod Moeseg ac wedi'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio a'r Cod hwn a'r egwyddorion sy'n ei danategu.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | Y Ganolfan Fregusrwydd |
| **Llofnod:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 27/01/21 |

# 5. Gweithredu ac Adolygu

Ymchwilir i bob adroddiad am gam-drin ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod er mwyn diogelu bywydau a lles pawb sydd mewn perygl.

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob 2 flynedd gan Dditectif Arolygydd y Ganolfan Fregusrwydd, heblaw bod unrhyw weithdrefn neu bolisi cenedlaethol wedi'i ddiweddaru sy'n berthnasol iddo'n cael ei gyhoeddi yn y cyfamser, neu mae adborth gan y pwyllgor moeseg, yr Adran Safonau Proffesiynol neu'r Gwasanaethau Cyfreithiol.

Yn y pen draw, y Ganolfan Fregusrwydd sy'n gyfrifol am y polisi, a bydd yn monitro cydymffurfiaeth yn rheolaidd drwy hap samplu digwyddiadau ac ymchwiliadau, ac yn archwilio ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyffredinol staff. Bydd unrhyw gwynion y mae'r heddlu'n derbyn am ein hymateb i gam-drin ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod yn cael eu hymchwilio er mwyn nodi dysgu, a bydd unrhyw adborth da'n cael ei roi i staff.

Os bydd unrhyw feysydd gwella'n cael eu hamlygu, bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu neu ei ddiwygio er mwyn sicrhau gwella parhaus. Adroddir am hyn yn ffurfiol wrth y Pennaeth Amddiffyn Pobl Fregus.

**Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**

Yn unol â Rhan 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 mae'n ofynnol i'r Heddlu gyhoeddi ei holl bolisïau ar wefan yr Heddlu. Polisïau sy'n dangos pam yr ydym yn gwneud pethau a gweithdrefnau sy'n dangos sut yr ydym yn eu gwneud. Rhaid cynnal adolygiad o'r gweithdrefnau fesul achos er mwyn diogelu ystyriaethau'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith ac iechyd a diogelwch. Os cynhyrchir dogfen sy'n cyfuno polisi a gweithdrefnau, mae'n ofynnol o dan y gyfraith i'r Heddlu gyhoeddi'r polisi ac asesu'r rhan sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau i sicrhau na chaiff unrhyw wybodaeth sensitif ei chyhoeddi. Yn gyffredinol, fel sefyllfa ddiofyn, cynhyrchir polisi a dogfen weithdrefn ar wahân.

Mae'n ofynnol felly i adolygu'r ddogfen hon er mwyn cadarnhau ei bod yn addas i'w chyhoeddi. Noder isod p'un ai yw'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd ai peidio. Os credir y gallai datgelu fod yn niweidiol, disgrifiwch y niwed y byddai'r cyhoeddi'n ei achosi gan amlygu'r rhannau perthnasol yn y ddogfen. Os tybir y gallai datgelu fod yn niweidiol dylid anfon y ddogfen i'r Uned Rhyddid Gwybodaeth i'w hadolygu.

**Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi**

| **Addas i'w chyhoeddi** | **Ydyw/Nac ydyw** | **Dyddiad** | **Llofnod** |
|---|---|---|---|
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | Ydyw | 27/01/21 | [redacted] |
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi'n rhannol. Rwyf wedi amlygu'r rhannau y credaf nad ydynt yn addas i'w datgelu ac wedi disgrifio isod y niwed y byddai cyhoeddi yn ei achosi. | | | |
| **Niwed – mewn cyhoeddi** | | | |

**Adolygiad Rhyddid Gwybodaeth – i'w gwblhau gan yr Uned Ddatgelu**
(Dim ond os yw'r awdur yn credu bod niwed mewn cyhoeddi)

<table>
<tr><th>Addas i'w chyhoeddi</th><th>Ydyw/Nac ydyw</th><th>Dyddiad</th><th>Penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth</th></tr>
<tr><td>Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd</td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Dogfen yn addas i'w cyhoeddi yn rhannol a gwnaed golygiadau perthnasol.  Crëwyd fersiwn sy'n addas ar gyfer y cyhoedd.</td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="4">Ar ôl cwblhau'r adolygiad dylai'r penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth ddychwelyd y ddogfen i awdur y polisi, ac ar ôl ei chymeradwyo a'i llofnodi, dylid ei chyhoeddi o fewn Cynllun Cyhoeddi'r Heddlu. Dylai unrhyw newidiadau pellach i'r ddogfen gael eu dwyn i sylw'r Uned Rhyddid Gwybodaeth, fel y bo'n addas.</td></tr>
</table>